WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Wales Audit Office / Swyddfa Archwilio Cymru

24 Cathedral Road / Heol y Gadeirlan
Cardiff / Caerdydd
CF11 9LJ
Tel / Ffôn: 029 20 320500
Fax / Ffacs: 029 20 320600
Email / Ebost: wales@wao.gov.uk
www.wao.gov.uk

Mr Darren Millar AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd CF99 1NA

Dyddiad: 18 Chwefror 2014
Ein cyf: HVT/2084/fgb


Annwyl Darren

**GWEITHREDU'R FFRAMWAITH CENEDLAETHOL AR GYFER GOFAL IECHYD PARHAUS Y GIG**

Yn llythyr y Clerc dyddiedig 6 Chwefror 2014 gofynnwyd am fy nghyngor ar ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar *Gweithredu'r Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Gofal Iechyd Parhaus y GIG* (Rhagfyr 2013). Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi ei bod yn derbyn saith o'r deg argymhelliad a wnaed yn adroddiad y Pwyllgor, gan dderbyn yn rhannol y tri argymhelliad sy'n weddill.

Ar y cyfan, ystyriaf fod Llywodraeth Cymru wedi ymateb yn foddhaol i argymhellion 2, 3, 5 ac 8. O ran argymhellion 1, 4, 6, 7, 9 a 10, ystyriaf fod diffyg eglurder ynghylch agweddau ar ymateb Llywodraeth Cymru. Rwyf wedi nodi isod fy sylwadau ar yr ymatebion i'r argymhellion hyn.

***Argymhelliad 1*** – Yn ôl yr hyn a ddeallaf am yr argymhelliad hwn, yng nghyd-destun y naratif ategol yn adroddiad y Pwyllgor, roedd y Pwyllgor yn annog Llywodraeth Cymru i ystyried a fydd yr adnodd ategu penderfyniadau newydd yn cael ei gymhwyso'n ôl-weithredol gan fyrddau iechyd, ac os na fydd, i asesu risg hawliadau ôl-weithredol gan unigolion sydd efallai'n teimlo eu bod wedi cael eu rhoi dan anfantais yn y gorffennol. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyfyngu ei hymateb i'r trefniadau ar gyfer asesu effaith yr adnodd ategu penderfyniadau newydd, ac nid yw'n ymateb i'r mater yn ymwneud â defnyddio'r adnodd yn ôl-weithredol.

***Argymhelliad 4*** – Yn rhesymol ddigon, yn fy marn i, noda Llywodraeth Cymru fod adnodd eisoes ar waith a fyddai'n helpu i flaenoriaethu hawliadau ôl-weithredol yn ôl amgylchiadau unigolion a theuluoedd. Ond er bod modd i hawlwyr wneud cais i'w hawliad gael ei gyflymu o dan amgylchiadau arbennig, megis caledi ariannol eithafol neu gael diagnosis o salwch angheuol, nid yw'n glir sut y caiff hawlwyr wybod am yr opsiwn hwn. Nodaf amheuon y Pwyllgor ynghylch y modd yr ymgysylltir ag unigolion ar hyn o bryd a'r angen am ffordd fwy rhagweithiol o roi gwybodaeth i unigolion.

***Argymhelliad 6 ac Argymhelliad 7*** – Wrth dderbyn y ddau argymhelliad, noda Llywodraeth Cymru ei bod ar y trywydd cywir i gyrraedd ei tharged i 'adolygu' pob achos ôl-weithredol erbyn y dyddiad targed, sef Mehefin 2014, ac y bydd y diweddariadau ar gynnydd y bydd yn eu rhoi i'r Pwyllgor ym mis Mawrth a mis Medi 2014 yn cynnwys y sefyllfa o ran nifer yr achosion a 'adolygwyd'.  Yn ôl yr hyn a ddeallaf, nid yw'r term 'adolygwyd' yn golygu bod yr achos wedi'i gwblhau, ac mae'n bosibl bod nifer o gamau pellach sydd angen eu cymryd er mwyn datrys yr achos. Yn benodol, unwaith y caiff achos ei adolygu ac y gwneir penderfyniad cychwynnol yn ei gylch, bydd angen i'r achos gael ei adolygu gan gymheiriaid o hyd, ac efallai y bydd angen cynnal cam negodi gyda'r unigolyn a/neu banel adolygu annibynnol o hyd. Nod amlwg argymhellion y Pwyllgor yw sicrhau y caiff achosion eu cwblhau yn amserol. Er bod ymateb Llywodraeth Cymru yn cadarnhau ei bod yn disgwyl i'r mwyafrif llethol o hawliadau gael eu cwblhau erbyn mis Mehefin 2014, ac i bob un ohonynt gael eu cwblhau erbyn diweddariad mis Medi 2014, efallai y bydd y Pwyllgor yn awyddus i egluro mai ynghylch achosion a gwblhawyd y mae angen diweddariadau arno yn hytrach na'r rhai sydd ar gam penodol o'r gwaith prosesu.

***Argymhellion 9 a 10*** – Mae ymatebion Llywodraeth Cymru i'r argymhellion hyn, yn fy marn i, yn rhesymol. Fodd bynnag, gallai'r ddau ymateb fod yn fwy penodol o ran pryd y mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i'r camau gweithredu gael eu cwblhau. Noda Llywodraeth Cymru y bydd yn hysbysu'r Pwyllgor unwaith y caiff penderfyniad pendant ei wneud ynghylch y cyfnod hiraf o amser y dylai ei gymryd i ddelio â hawliad; ac y bydd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor unwaith y caiff dull cytûn o brosesu hawliadau ôl-weithredol ei gadarnhau.  Efallai y bydd y Pwyllgor am gael eglurhad gan Lywodraeth Cymru ynghylch pryd y mae'n disgwyl i'r materion hyn gael eu datrys.

Wrth gynghori'r Pwyllgor ar unrhyw gamau dilynol y gallai fod am eu cymryd yng ngoleuni ymateb Llywodraeth Cymru i argymhellion y Pwyllgor, nodaf fod Llywodraeth Cymru wedi cytuno i ddarparu adroddiadau ar gynnydd i'r Pwyllgor, ym mis Mawrth a mis Medi 2014, mewn perthynas â chlirio hawliadau ôl-weithredol. Hefyd, bydd Llywodraeth Cymru yn lansio ei fframwaith diwygiedig ar gyfer parhau â gofal iechyd y GIG yn ystod Haf 2014.

Gellid dadlau y dylai'r Pwyllgor ysgrifennu at Lywodraeth Cymru nawr er mwyn cael rhagor o wybodaeth am y meysydd hynny lle mae diffyg eglurder yn ei ymateb. Fodd bynnag, gallai fod yn fwy buddiol gwneud hyn fel rhan o sesiwn dystiolaeth ddilynol ehangach, ar ôl i'r Pwyllgor gael yr adroddiadau ar gynnydd a addawyd ac ar ôl i'r fframwaith diwygiedig gael ei lansio. Os cytunir ar y camau hyn, byddwn yn fwy na pharod i baratoi memorandwm byr yn yr hydref fel sail i drafodaethau pellach y Pwyllgor.

Gobeithio y bydd y cyngor hwn yn ddefnyddiol i'r Pwyllgor wrth iddo ystyried ymateb Llywodraeth Cymru.

Yn gywir



**HUW VAUGHAN THOMAS**
**ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU**